Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 8 Mawrth 2012**

Amser:
**11:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Carys Evans, 029 2089 8598**
Clerc y Pwyllgor

## Agenda
AC(4)2012(2)

### 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

- **Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**
- **Datganiadau o fuddiant**
- **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** (Tudalennau 1 - 5)

### 2. Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwelliannau i'r gwasanaeth TGCh
(Tudalennau 6 - 8)

### 3. Fframwaith ar gyfer adroddiad a datganiad o gyfrifon blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2011-12 (Tudalennau 9 - 10)

### 4. Strategaeth cyllideb y Comisiwn 2013-16 (Tudalennau 11 - 15)

### 5. Ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Tudalennau 16 - 25)

### 6. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynwyr am eu portffolios
(Tudalen 26)

**7. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad** (Tudalen 27)

**8. Unrhyw Fusnes Arall**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2012**
**Cofnodion cyfarfod 8 Mawrth 2012**
**Dyddiad:** 8 Mawrth 2012
**Amser:** 10:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

# Cofnodion cyfarfod 8 Mawrth 2012

**Yn bresennol:**
Y Llywydd, Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredol
Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Craig Stephenson, Pennaeth y Comisiwn a'r Gwasanaeth Cymorth i Aelodau
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn

**Cynghorwyr annibynnol:**
Mair Barnes
**Eraill:**
David Melding AC, Dirprwy Lywydd

**AC(4)2012(1)**
**Cofnodion cyfarfod 2 Chwefror 2012**

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

**Datgan buddiant**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**Cofnodion cyfarfod 2 Chwefror 2012**
Cytunwyd yn ffurfiol ar y cofnodion.

Roedd y swyddogion yn bwrw ymlaen â'r holl gamau eraill yr oedd angen eu cymryd.

## 2. Y wybodaeth ddiweddaraf am wella'r gwasanaeth TGCh

Ers cyfarfod diwethaf y Comisiwn, cymerwyd nifer o gamau i ymateb i bryderon yr Aelodau am rai agweddau ar y gwasanaeth TGCh. Cytunwyd ag Atos ar gynllun i wella'r gwasanaeth, cynhaliwyd cyfarfod rhwng uwch swyddogion Atos a Llywodraeth Cymru, a rhwng Aelodau'r Cynulliad a swyddogion y Comisiwn i nodi'r problemau sy'n parhau yn y gwasanaeth a'n hanghenion tebygol yn y dyfodol.

Defnyddiwyd adnoddau ychwanegol i sicrhau bod modd rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Fel rhan o'r cynllun, bydd peiriannydd yn ymweld â phob swyddfa etholaethol i ymdrin ag unrhyw broblemau a bydd rhagor o gymorth ar gael o ran rheoli prosiectau a pharatoi cynlluniau technegol er mwyn medru cyflwyno prosiectau gwella'n gynt a chaiff rheolau diogelwch a dulliau o ddarparu gwasanaethau eu hadolygu i'w haddasu'n well ar gyfer anghenion.

Cytunodd y Comisiynwyr fod y gwelliannau i'w gweld yn datrys y problemau TGCh ac roeddent yn falch bod camau pendant wedi'u cymryd yn y cyswllt hwn. Nodwyd bod trafodaethau ar y gweill ag Atos i archwilio i ba raddau y dylai Atos rannu'r gost ychwanegol sy'n deillio o'r camau hyn.

Cam i'w gymryd: swyddogion i ddosbarthu'r papur yn uniongyrchol i Aelodau'r Cynulliad.

**3. Fframwaith Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2011-12**

Bydd Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2011-12 yn rhoi trosolwg strategol ar flaenoriaethau strategol Comisiwn y Cynulliad, ac yn rhoi pwyslais cryf ar adeiladu Cynulliad ar gyfer y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyhoedd fydd hwn, ond bydd hefyd o ddiddordeb i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill. Bydd yn ymdrin â nifer o themâu, gan gynnwys paratoi ar gyfer yr etholiad a'r diddymiad; yr etholiad a'r aelodaeth newydd; gwaith Comisiwn newydd y Cynulliad a'r trefniadau ar gyfer busnes y Cynulliad.

Cytunodd y Comisiwn ar gynnwys arfaethedig yr Adroddiad Blynyddol, Cytunwyd i gyhoeddi adroddiad gwahanol yn amlinellu'r hyn y mae'r Comisiwn wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad; adroddiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn bennaf fydd hwn.

Cam i'w gymryd: swyddogion i fwrw ymlaen â'r paratoadau angenrheidiol.

**4. Strategaeth Cyllideb y Comisiwn 2013 - 16**

Trafodwyd sut y dylid ymdrin â chyllideb y Comisiwn ar gyfer 2013-14 a'r ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn nhymor y Pedwerydd Cynulliad (2014-15 a 2015-16). Y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2013-14 fydd £49.450 miliwn;  £13.700 miliwn ar gyfer cyflogau a chostau Aelodau'r Cynulliad a £35.750 ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad, sef cynnydd o 5.3% o'i gymharu â chyllideb 2012-13.

Mae'r dulliau arfaethedig o ymdrin â'r gyllideb yn adlewyrchu cytundeb y Comisiwn i gyflwyno'r cynnydd yn y gyllideb  fesul cam, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid. Cytunodd y Comisiwn y dylid paratoi cyllideb  2013-14 yn unol â'r ffigurau dangosol.

Bydd rhagor o drafodaethau yng nghyfarfodydd y Comisiwn yn ystod tymor yr haf. Disgwylir i'r gyllideb derfynol gael ei chymeradwyo yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Medi, ac y caiff ei gosod yn ffurfiol erbyn 28 Medi.

Cytunodd y Comisiynwyr i ystyried:

- gofynion ariannu hirdymor y Pedwerydd Cynulliad;
- ymgynghori â'r Aelodau a'u staff cymorth ynglyn â'r gofynion hyn.

Cam i'w gymryd: swyddogion i fwrw ymlaen, yn unol â'r dulliau y cytunwyd arnynt.

**5. Trin ceisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Ystyriodd y Comisiwn ddulliau posibl o wella'r modd y caiff ceisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eu trin, er mwyn symleiddio'r broses a gwneud gwell defnydd o adnoddau'r Cynulliad.

Mae modd ymdrin â'r rhan fwyaf o'r ceisiadau'n ddidrafferth ond mae llawer gormod o waith ynghlwm wrth nifer fechan ohonynt oherwydd eu bod yn geisiadau mor eang a chymhleth.

Byddai cynyddu'r wybodaeth a gyhoeddir yn rhagweithiol yn golygu na fyddai angen ymateb i cynifer o geisiadau penodol, a byddai hefyd yn dangos ymrwymiad parhaus y Comisiwn i weithio'n agored ac yn dryloyw.

Trafododd y Comisiynwyr y math o wybodaeth y gellid ei chyhoeddi'n rhagweithiol. Tanlinellwyd y byddai angen cymryd gofal wrth wneud hynny i sicrhau cydbwysedd rhwng tryloywder a'r angen i barchu preifatrwydd. Cytunwyd y byddai'r Comisiynwyr yn cael cyfle i ystyried y math o wybodaeth y gellid ei chyhoeddi'n rhagweithiol cyn dod i benderfyniad terfynol.

Nodwyd bod y gost o ddarparu'r wybodaeth, mewn rhai achosion, yn fwy na'r 'uchafswm priodol'. Cytunwyd, mewn achosion o'r fath, ac yn unol â Chod y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, na fyddai'r Comisiwn yn gwrthod darparu'r wybodaeth dan sylw (er y byddai ganddo hawl i wneud hynny) ond y byddai'n cadw'r hawl i beidio â darparu gwybodaeth pe bai'r costau'n amlwg yn ormodol a phe bai amgylchiadau ychwanegol, a fyddai'n diogelu buddiannau'r cyhoedd, yn cyfiawnhau arfer yr hawl hwnnw.

Cadarnhaodd y Comisiwn, yn unol â'r Cod, na fyddai'n codi tâl am y wybodaeth, ar wahân i rai achosion eithriadol. Cytunwyd i gasglu gwybodaeth am y gost o drin ceisiadau, er mwyn ei chynnwys yn adroddiadau'r Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn yn y dyfodol.

Camau i'w cymryd:

Swyddogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- gynigion i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol yn rhagweithiol;
- y gost o drin ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeiliaid portffolio**

Dyma'r eitemau a drafodwyd:

**Gwasanaethau i'r Aelodau**
Fel ymateb i sylwadau gan Aelodau'r Cynulliad, bydd swyddogion y Comisiwn yn cynnal arolwg o'r gwasanaethau a gynigir i'r Aelodau i helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau, fydd yn arwain y gwaith hwn.

**Archwilio**
Cytunodd y Comisiwn y byddai'n cael adroddiadau'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod yr holl Gomisiynwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor hwnnw. Cytunwyd y byddai'n cael ei gynnwys ar agenda cyfarfodydd y Comisiwn pan fyddai hynny'n briodol.

**Siop y Cynulliad**
Bydd Siop y Cynulliad yn symud i Gaffi'r Senedd erbyn y Pasg 2012. Mae gwaith ar y gweill i wella'r arwyddion, ac i wneud y rhan honno o'r adeilad yn fwy cyfforddus ac atyniadol, ac i benderfynu ar yr eitemau i'w gwerthu yn y siop. Cytunwyd y byddai hefyd yn bwysig hyfforddi'r staff.

**Y Mesur Ieithoedd Swyddogol**
Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wrthi'n ystyried Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

**Allgymorth a digwyddiadau**
Mae nifer o ddigwyddiadau amlwg wedi'u cynnal ar ystâd y Cynulliad yn ystod yr wythnosau diwethaf ac maent wedi bod yn boblogaidd iawn.

Bydd cyflwyniad ar waith ymgysylltu'r Tîm Allgymorth yn cael ei drefnu ar gyfer un o gyfarfodydd y Comisiwn maes o law.

**Trafodaethau ynghylch cyflogau**
Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch cyflogau staff y Comisiwn.

**Portffolios y Comisiynwyr**
Cytunwyd y dylid egluro'r modd y mae'r gwaith yn y cael ei ddosbarthu rhwng y portffolios a, lle bo hynny'n briodol, y dylid ei addasu i adlewyrchu profiadau yn ystod y flwyddyn gyntaf.

**7. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**
Nodwyd y rhaglen dreigl.

**8. Unrhyw fater arall**
Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

**AC(4)2012(2) Papur 2 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau 8 Mawrth 2012
**Amser:** 11.00 -13.00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Brian Davidge, est 8879

# Y wybodaeth ddiweddaraf am wella'r gwasanaeth TGCh

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Rhoi gwybod i'r Comisiwn pa gamau a gymerir i wella'r gwasanaethau TGCh i Aelodau a'u staff.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gofynnir i'r Comisiwn:

a. nodi'r gwaith a wneir o ran y rhaglen i wella'r gwasanaeth;

b. cynnig unrhyw waith ychwanegol a allai wella'r gwasanaeth a ddarperir.

## 3.0 Y rhaglen i wella'r gwasanaeth TGCh

3.1 Mewn ymateb i bryderon a nodwyd gan yr Aelodau am agweddau ar y gwasanaeth TGCh a ddarperir, mae'r camau brys a ganlyn wedi'u rhoi ar waith:-

- Ysgrifennodd y Prif Weithredwr at Brif Weithredwr Atos (y contractwr TGCh) ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (fel deiliad y contract TGCh) yn mynegi pryder am y modd y darperir y gwasanaeth a'r flaenoriaeth a roddir i wasanaethau'r Cynulliad. Cyfarfu wedyn â'r Ysgrifennydd Parhaol a thîm Atos, a bydd yn cwrdd â Phrif Weithredwr Atos yn y DU ac Iwerddon ynghyd â'r Llywydd a Peter Black AC ar 8 Mawrth.

- Cytunwyd ar gynllun gwella gydag Atos a fydd yn gwella'r gwasanaeth ar unwaith (fel y nodir isod). Mae trefniadau ar waith i fonitro cyrhaeddiad yn ôl y cynllun, a fydd yn cynnwys darparu adroddiadau wythnosol i'r Prif Weithredwr.

- Trefnwyd trafodaethau uniongyrchol rhwng pob Aelod Cynulliad a staff y Cynulliad i nodi unrhyw broblemau sy'n parhau gyda'r gwasanaeth a'u hanghenion tebygol yn y dyfodol.

3.2 Cytunwyd ar gynllun gwella'r gwasanaeth gydag Atos. Y prif bwyntiau yw:

- Atgoffwyd peirianwyr Desg Gymorth Atos unwaith eto am bwysigrwydd ymdrin ag ymholiadau Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau yn gyson i'r un safonau uchel.

- Bydd peiriannydd yn ymweld â phob swyddfa etholaethol ac yn cynnal archwiliad o'r system a'i chynllun, gan ddatrys problemau ar unwaith os yn bosibl, rhoi cyngor ar faterion technegol a darparu neu drefnu hyfforddiant os credir bod hynny'n angenrheidiol. Hyd yma, cynhaliwyd 14 ymweliad a bu'r adborth yn dda. Bwriadwn drefnu ymweliadau o'r fath â phob swyddfa newydd pan fydd Aelod yn symud; darparu gwasanaeth tebyg yn rheolaidd bob blwyddyn ac ymestyn y cyfleuster i wasanaethu swyddfeydd cartref. Caiff adroddiad ei lunio i nodi unrhyw broblemau cyffredin.

- Yn dilyn pob trafodaeth ag Aelodau, bydd staff cymorth cyffredinol yn gweithio gyda pheirianwyr i ganfod atebion cyflym ac i drefnu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol. Darparwyd adnoddau ychwanegol gan Atos i sicrhau y gall staff y Cynulliad ddatrys rhai problemau.

- Bydd canllawiau sy'n atgoffa defnyddwyr o'r camau priodol i'w cymryd er mwyn cael cymorth yn cael eu cynhyrchu mewn fformat syml a dealladwy ac yn cael eu dosbarthu i bawb.

- Yn dilyn problemau gyda'r cysylltiad mewn swyddfeydd etholaethol, bydd pob un yn cael ei symud i seilwaith BT newydd pan fydd Cyfnewidfeydd BT y swyddfeydd wedi cael eu paratoi ar gyfer hynny – mae 11 swyddfa wedi'u trosglwyddo eisoes.

- Pan na fydd y Gyfnewidfa BT leol yn barod ac na fydd ar y rhestr i gael ei huwchraddio o hyn tan yr haf, byddwn yn trosglwyddo'r cylchedau data i ran wahanol o rwydwaith BT er mwyn darparu gwasanaeth gwell. Mae un swyddfa wedi'i throsglwyddo'n llwyddiannus a gwelwyd gwelliant yno.

- Rydym wedi newid y ffordd mae'r Tîm TGCh a pheirianwyr a rheolwyr Atos yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn osgoi dyblygu gwastraffus a gwella dulliau cyfathrebu.

- Mae Atos yn darparu rhagor o gymorth rheoli prosiectau a chynllunio technegol er mwyn ein galluogi ni i ddarparu prosiectau gwella yn gyflymach.

- Rydym yn adolygu ein rheolau diogelwch a'n dull o ddarparu gwasanaethau, i'w gwneud yn fwy effeithiol ar gyfer diwallu anghenion cymorth yr Aelodau (mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld isod).

Er bod modd cyflawni llawer o'r camau uchod i wella'r gwasanaeth o fewn fframwaith cost contract Merlin, mae rhai o'r camau yn cynrychioli gwasanaethau ychwanegol a byddant yn golygu cost ychwanegol i'r Cynulliad. Rydym yn trafod ag Atos ynghylch i ba raddau y caiff y costau hyn eu rhannu rhyngom.

3.3 Mae opsiynau hefyd ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy a fydd yn dechrau ar y broses o drawsffurfio ein gwasanaethau TGCh. Bydd rhai o'r opsiynau yn golygu rhoi trefniadau contractio newydd ar waith ar ôl 2014 ond caiff eraill eu darparu cyn hynny. Bydd cyfyngiadau i'w hystyried o ran contractau a chostau. Ymhlith yr opsiynau mae:

a. Sicrhau mynediad i ddewis ehangach o becynnau, rhannu syniadau er mwyn darparu gwasanaethau gwell i Aelodau;

b. Sefydlu prosiect "defnyddio eich pecyn eich hun" a dechrau ei ymgorffori yn ein cynlluniau, i sicrhau bod mwy o hyblygrwydd ar gael i Aelodau;

c. Adolygu ein darpariaeth band eang presennol i gartrefi a swyddfeydd yr Aelodau er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd a dewisiadau yn y dyfodol;

d. Adolygu ein darpariaeth Blackberry er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a mwy o ddewis;

e. Cyflwyno newidiadau i'r fframwaith gwasanaeth a ddarperir gan Atos, yn ddibynnol ar y costau.

3.4 Cytuno ar gyfres well o feini prawf o ran perfformiad sy'n eglur a phwrpasol ar gyfer anghenion y Cynulliad sy'n ein galluogi ni i farnu'n gyflym a yw'r cynllun gwella yn gweithio a pha mor dda yw.

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2012(2) Papur 3 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau, 8 Mawrth 2012
**Amser:** 11.00 – 13.00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Iwan Williams, est 8039

# Fframwaith ar gyfer adroddiad blynyddol a datganiad cyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2011-12

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad o gynnwys arfaethedig Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon 2011-12.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gofynnir i'r Comisiwn gytuno ar yr amlinelliad arfaethedig ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-12.

2.2 Yn unol â pholisi cynaliadwyedd y Cynulliad, bydd yr adroddiad llawn ar gael ar-lein yn unig, er y dosberthir fersiynau cryno wedi'u hargraffu yn nigwyddiadau'r haf a thrwy ystâd y Cynulliad. Rhoddir ystyriaeth gofalus i sicrhau eu bod yn cael eu dosbarthu i fannau cyhoeddus priodol, fel llyfrgelloedd cyhoeddus.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Caiff Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-12 eu llunio gan ystyried y wybodaeth sydd ei hangen ar gynulleidfa allanol, sef y cyhoedd yn bennaf, ond bydd angen ystyried pobl eraill sydd â diddordeb hefyd, sef Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill.

3.2 Y bwriad yw y bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, gyda phwyslais pendant ar ddatblygu Cynulliad ar gyfer y dyfodol. Bydd yn cynnwys:

a. y paratoadau ar gyfer yr etholiad a diddymu'r Cynulliad;

b. yr etholiad ac Aelodau newydd;

c. gwaith Comisiwn newydd y Cynulliad (a fydd yn cynnwys cyflwyno'r Bil Ieithoedd Swyddogol a'r strategaeth ar ei gyfer);

d. trefniadau newydd ar gyfer busnes y Cynulliad (sy'n cynnwys cyfeiriad at newidiadau i strwythur y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn a phrif ffrydio materion Ewropeaidd);

e. gwaith y Bwrdd Taliadau, gwaith archwilio mewnol, datblygu proffesiynol parhaus, a gwaith y Comisiynydd Safonau.

3.3 Y fframwaith arfaethedig ar gyfer adroddiad blynyddol 2011-12 yw:

a. Rhagair y Llywydd;

b. Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad;

c. Datblygu Cynulliad ar gyfer y dyfodol;

d. Agoriad Brenhinol y Pedwerydd Cynulliad - y diwrnod ar ffurf lluniau, gan gynnwys deunydd fideo o ddigwyddiadau allweddol, fel araith y Llywydd ac araith y Frenhines;

e. Bywgraffiadau byr ar y 60 o Aelodau'r Cynulliad;

f. Amlinellu rôl a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad drwy amlygu eu gwaith yn y meysydd a ganlyn:

   i. cynrychioli buddiannau etholwyr;

   ii. gwneud cyfreithiau i Gymru;

   iii. dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif;

g. Datganiad o gyfrifon, gan gynnwys crynodeb y rheolwyr.

3.4 Bydd y fersiwn Saesneg o'r Adroddiad Blynyddol ar gael i'w adolygu ar 14 Mehefin 2012, pan gaiff ei anfon i'w gyfieithu.

3.5 Caiff yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon eu gosod gerbron y Cynulliad ar 12 Gorffennaf 2012 a'u cyhoeddi ar-lein ar yr un diwrnod.

Eitem 4

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2012(2) Papur 4 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau 8 Mawrth 2012
**Amser:** 11.00 - 13.00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Nicola Callow,est 8054

# Strategaeth ar gyfer Cyllideb y Comisiwn 2013-16

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn nodi'r dull a awgrymir o ran gweithredu Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2013-14 ac yn darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o dymor y Pedwerydd Cynulliad (2014-15 a 2015-16).

## 2.0 Argymhellion

2.1 Bod Cyllideb 2013-14 yn cael ei pharatoi yn unol â'r ffigurau dangosol a nodir yn nogfen cyllideb 2012-13 ac yn unol â'r egwyddorion a nodir yn strategaeth y gyllideb yn Atodiad A.

2.2 Y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad yn 2013-14 yw £35.750 miliwn gyda £13.700 miliwn ar gyfer cyflogau a chostau Aelodau'r Cynulliad. Mae hwn yn gynnydd o 5.3 y cant o'i gymharu â Chyllideb 2012-13.

2.3 Gan y bydd y ddogfen gyllideb hon hefyd yn darparu ffigurau dangosol hyd at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, bydd y Comisiynwyr am ystyried tybiaethau cynllunio yn y tymor hwy hefyd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd y Comisiynwyr am ddilyn strategaeth wahanol ar gyfer y gyllideb yn unrhyw un o'r blynyddoedd sy'n weddill o'r Pedwerydd Cynulliad.

## 3.0 Ymgynghori

3.1 Bydd dull y Bwrdd Rheoli o adolygu cynnydd y gyllideb yn rheolaidd yn galluogi pob gwasanaeth yn y Cynulliad i gyfrannu at broses y gyllideb. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Prif Weithredwr yn cynnal sesiynau gwybodaeth rheolaidd gyda staff y Comisiwn a bydd hyn, ynghyd â rhoi gwybodaeth ddiweddar yn rheolaidd drwy negeseuon e-bost a'r fewnrwyd, yn rhoi gwybod i staff am gynnydd y gyllideb.

3.2 Darperir adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd Taliadau er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn gwybod am unrhyw oblygiadau ariannol sy'n codi yn sgîl gwneud newidiadau i'r Penderfyniad.

3.3 Bydd y Comisiynwyr yn dymuno ystyried unrhyw gynlluniau i ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Bydd proses y Gyllideb ar gyfer 2013-14 yn rhoi cyfle i gynnal cyfarfodydd unigol â phob Comisiynydd i gynorthwyo gyda'r broses hon. Gellir rhoi cyflwyniadau i'r pleidiau yn ôl y gofyn.

**4.0 Trafodaeth**

4.1 Disgwylir i'r gyllideb hon, yn nhrydedd flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad, barhau â'r duedd o ran twf a buddsoddi a ddechreuwyd yn 2012-13. Mae hyn yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Comisiwn "…ailystyried ei gynigion cyllidebol, ar sail yr angen i sicrhau bod modd cyflwyno'r cynnydd y mae'n ei geisio, a hynny'n raddol dros gyfnod o 2-3 blynedd".[1]

4.2 Mae darparu o fewn cyllideb ddangosol o £35.750 miliwn am Wasanaethau'r Cynulliad yn 2013-14 yn golygu y bydd angen cydbwyso unrhyw newid yn y gwariant gweithredu (cyflogau a chostau rhedeg) â'r swm sydd ar gael ar gyfer mentrau a phrosiectau buddsoddi. Bydd hyn yn berthnasol ar gyfer cyllidebau 2014-15 a 2015-16 hefyd. Y gyllideb a ddisgwylir ar gyfer y rhaglen fuddsoddi yw oddeutu £2.2 filiwn y flwyddyn.

4.3 Y Bwrdd Taliadau fydd yn parhau'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch cyflogau a chostau eraill Aelodau'r Cynulliad. Caiff unrhyw oblygiadau cyllidebol o ran penderfyniadau'r Bwrdd eu nodi wrth y Comisiwn.

**5.0 Yr amserlen/camau nesaf**

5.1 Bydd cyfarfodydd y Comisiwn ar 10 Mai a 28 Mehefin yn rhoi rhagor o gyfleoedd i Gomisiynwyr werthuso'r cynnydd o ran y gyllideb. Bydd angen gwneud y ddogfen gyllideb yn derfynol yng nghyfarfod y Comisiwn ar 12 Gorffennaf. Cynigir y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb gyda'r pwyslais ar eu meysydd portffolio eu hunain i Gomisiynwyr mewn cyfarfodydd sydd i'w cynnal ym mis Mai a mis Medi.

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2012-13, Pwyllgor Cyllid (y Pedwerydd Cynulliad), 20 Hydref 2011, Para 58.

5.2 Mae'r amserlen wedi'i chyflymu er mwyn sicrhau y ceir cyfraniadau a chytundeb y Comisiynwyr mewn da bryd cyn y cyfarfod ar 27 Medi, pan fydd gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan y Comisiwn i osod cyllideb ddrafft 2013-14. Y diwrnod olaf ar gyfer gosod y ddogfen gyllideb yw 28 Medi 2012. Gellir gweld yr amserlen fanwl yn Atodiad B.

# Commission Budget Strategy – Annex A

## Assembly Services Budget

### 1.0 Assumptions

1.1 Table 1 provides a high level analysis of the key budget expenditure headings. It shows the year on year increase in funding for the Commission. The figures in Table 1 are based on the following assumptions.

1.2 The Commission will not exceed the indicative budget figure of £35.750m for 2013-14. Primarily this will mean the balance of funds, once all salaries and running costs (depreciation, fixed and discretionary costs) are allocated will form the Assembly Service projects and future investments budget.

a. This will require prioritising the investment programme and ensuring there is sufficient flexibility in the timing of projects to manage with the resources available.

b. One key issue concerns the cost implications of any change to the ICT service provider and the developing ICT strategy. Work is in hand, and will take some time, to develop a costed strategy and business case. This will feed into budget considerations at the appropriate time.

1.3 In calculating the 2013-14 salary expenditure there is no specific provision for any general pay award. The budget does include incremental salary adjustments for 2013-14 (and subsequent years) at an annual cost of 1.5%.

1.4 The Chancellor's Autumn 2011 statement[1] sets out the expectation that public sector pay awards will average one per cent increase for each of the two years following the pay freeze. As no budget provision for a pay award was made in 2012-13 and 2013-14:

a. 1% has been added in 2014-15 and 2015-16 for a general pay award. This is just an estimate, it does not represent an agreed settlement.

b. Both years also include the incremental salary adjustments.

---

[1] *Autumn Statement 2011,* HM Treasury, November 2011.

1.5 In calculating the fixed and discretionary costs for 2014-15 and 2015-16, the key assumptions are as follows:

a. In 2014-15 it has been assumed that only fixed costs will be adjusted by inflation. This assumes that any other increases in discretionary costs will be managed by the services from their existing budget. This mimics the approach adopted in 2012-13 and 2013-14.

b. In 2015-16 the 2.5% inflation adjustment has been applied to all costs.

1.6 Depreciation has been estimated on the basis of existing assets plus a minimum £1.5m capital expenditure per year with an average life of 4 years. (A variation of £400k in any one year incurs £100k depreciation.)

**2.0 Potential risks**

2.1 There are a number of known unknowns to be aware of in planning for future budgets. Whilst this is part of the reason for holding a separate contingency fund, there are a few issues that could have a significant impact on the Commission's budget if they materialise.

2.2 One such issue is an expected accounting standard change that will see leased assets (such as Tŷ Hywel) reflected in the accounts as an asset with an associated depreciation charge to the budget. The earliest we expect this change to be implemented is the 2013-14 financial year. In the past, such accounting changes have been accompanied by an agreed H M Treasury budget amendment to ensure organisations neither benefit nor are penalised.

2.3 No change has been included in the Commission's costs of employing staff. The 2012-13 National Insurance and Pension rates are assumed to apply through 2013-14 - 2015-16.

2.4 The Commission continues to link its budget to the Welsh block figures using 0.3%. Changes to future Treasury settlements such as those from pension reform or budget ring fencing can have a material impact on future Welsh block figures and therefore the Commission's funding.

**Assembly Members' Budget**

## 3.0 Assumptions

3.1 The figures in Table 1 are based on the July 2011 Determination and the Remuneration Board discussions on amendments to the Determination for 2012-13 financial year. The increase shown for Support Staff costs reflects incremental salary adjustments only. For the 2013-14 Determination, the Remuneration Board will be reviewing Support Staff pay. There could also be amendments to the allowances. The financial impact of these outcomes will be assessed and presented for Commissioners' review at the May or June meetings.

## 4.0 Potential risks

4.1 Any risk that Remuneration Board decisions exceed the indicative budget is mitigated through holding a contingency. The contingency level will need to reflect any potential outcome of the Remuneration Board's deliberations. There is also the option of seeking a supplementary budget in a financial year.

| **Table 1 Assembly Commission Budget summary** | **2012-13** | ***2013-14*** | **2014-15** | **2015-16** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000s** | ***£000s*** | **£000s** | **£000s** |
| | Draft Allocation | *Indicative* | Indicative | Indicative |
| *Assembly Services:* | | | | |
| Salaries | 15,565 | *16,100* | 16,300 | 16,700 |
| Fixed and Discretionary Costs | 12,990 | *13,250* | 13,400 | 13,750 |
| Efficiency target | (470) | *(250)* | (250) | (250) |
| Contingency | 500 | *500* | 500 | 500 |
| Depreciation | 3,900 | *4,000* | 4,400 | 4,500 |
| Investment Programme | 992 | *2,150* | 2,350 | 2,350 |
| Sub- Total | **33,477** | ***35,750*** | **36,700** | **37,550** |
| Change from previous year | 5.7% | *6.8%* | 2.7% | 2.3% |
| *Remuneration Board:* | | | | |
| Assembly Members - salary & Office costs | 6,900 | *6,900* | 6,900 | 7,100 |
| Support Staff | 6,600 | *6,800* | 7,000 | 7,200 |
| Sub- Total | **13,500** | ***13,700*** | **13,900** | **14,300** |
| Total Funding required | **46,977** | ***49,450*** | **50,600** | **51,850** |
| Funding per 2012-13 approved budget | **46,977** | ***49,450*** | **50,598** | **51,863** |
| Change from previous year | 5.1% | *5.3%* | 2.3% | 2.5% |

## 2013-14 Budget Preparation - Summary Timetable — Annex B

| Description | Due Date |
|---|---|
| **Recess 13 February 2012 - 17 February 2012** | |
| Meetings with Budget Managers & Investment Team | 06 -27-Feb-2012 |
| Receipt of Service baseline costs and details of additional resources | 27-Feb-2012 |
| Compile 2013-14 Budget - numbers | 02-Mar-2012 |
| Commission meeting - approve 2013-14 Budget Strategy | 08-Mar-2012 |
| Key budget issues - Financial Summary to Management Board | 14-Mar-2012 |
| Revise draft Budget Paper to reflect Management Board decisions | 28-Mar-2012 |
| **Recess 2 April 2012 - 20 April 2012** | |
| Management Board meeting - budget discussion | 23-Apr-2012 |
| Draft Budget Paper cleared for distribution to Commission | 30-Apr-2012 |
| Arrange one to one meetings with Commissioners | 1-9 May 2012 |
| Commission meeting - budget discussion | 10-May-2012 |
| Draft Budget Proposals in line with Commissioners' decisions | 31-May-2012 |
| **Recess 4 June 2012 - 8 June 2012** | |
| Commission meeting | 28-Jun-2012 |
| Review Draft Budget if required in light of Commissioners' decisions | 05-Jul-2012 |
| Commission meeting to finalise 2013-14 Budget document | 12-Jul-2012 |
| **Recess 23 July 2012 - 21 September 2012** | |
| Amend Draft Budget if required | 27-Jul-2012 |
| Pause and Review to take account of any developments over summer months | 07-Sep-2012 |
| Circulate Draft Budget Document to Commissioners prior to meeting for comments | 14-Sep-2012 |
| Arrange one to one meetings with Commissioners | 14 - 26-Sep-2012 |
| Commission meeting | 27-Sep-2012 |
| Lay Draft Budget Proposals - (SO 20.13 no later than 1 Oct) | 28-Sep-2012 |

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2012(2) Papur 5 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau 8 Mawrth 2012
**Amser:** 11:00 – 13:00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Steve O'Donoghue, est 8746

# Trin ceisiadau am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Nod y papur hwn yw cael safbwyntiau Comisiwn y Cynulliad ar welliannau posibl yn y ffordd rydym yn trin ceisiadau am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Y bwriad yw dod o hyd i ffyrdd i symleiddio ein dull er mwyn defnyddio adnoddau'r Cynulliad yn well.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Ein bod:

- yn adolygu faint o wybodaeth a gyhoeddwn yn rhagweithiol, gyda golwg ar sicrhau bod y math o wybodaeth sy'n debygol o fod yn destun ceisiadau eisoes ar gael yn gyhoeddus, neu y bydd ar gael yn gyhoeddus maes o law;

- yn defnyddio i'r eithaf yr eithriadau perthnasol a fydd ar gael drwy gyhoeddi'n rhagweithiol (sef pan fydd gwybodaeth ar gael i'r sawl sy'n gwneud cais drwy ddulliau eraill, ac os bwriedir cyhoeddi gwybodaeth yn y dyfodol), wrth ymateb i geisiadau perthnasol;

- lle bydd yr amcangyfrif o'r gost o gydymffurfio â chais yn fwy na'r terfyn priodol:
  a) yn cadw'n polisi cyfredol, yn unol ag Egwyddor 8 yng Nghod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, o beidio â chodi'r tâl a awdurdodir gan y Ddeddf fel amod i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani; ond
  b) mewn achosion eithriadol (er enghraifft, lle byddai'r gwaith o gydymffurfio mor fawr fel y byddai'n tarfu ar ein gwaith), bydd gan y Prif Weithredwr ryddid i ymarfer yr eithriad (adran 12 o'r Ddeddf) rhag cydymffurfio â'r cais.

## 3.0 Cefndir

3.1 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad (ar ran y Cynulliad) ddarparu gwybodaeth benodol ar gais (Atodiad A). Mae'n caniatáu 20 diwrnod gwaith inni ymateb i geisiadau felly, er nad oes cosb (heblaw am apelio at y Comisiynydd Gwybodaeth) pan eir dros y terfyn hwn. Mae'r rhai sy'n gwneud cais bron yn ddieithriad yn cytuno i ymestyn yr amser lle bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn gymhleth. Er bod nifer o ymatebion yn gymharol syml, gall rhai gymryd cryn amser ac ymdrech i'w rhoi ynghyd. Mewn achosion eithriadol gall hynny darfu ar waith parhaus y staff. Mae cydymffurfio â'r Ddeddf yn ofynnol dan y gyfraith, ond mae ein dull hefyd yn cael ei atgyfnerthu gan God Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Yn unol ag egwyddorion y Ddeddf a'r Cod, ein dull cyffredinol bob amser yw bod mor gymwynasgar ag y gallwn wrth y rhai sy'n holi. Mae Atodiad B yn rhoi rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn trin y ceisiadau hyn.

## 4.0 Ein dull cyffredinol

4.1 Lle bydd angen, byddwn yn siarad â'r rhai sy'n ymholi er mwyn sicrhau ein bod yn deall y wybodaeth maent yn gofyn amdani, ac i'w chyflwyno yn y ffurf fwyaf addas at eu hanghenion. Mae'n ofynnol inni ddefnyddio'r dull hwn yn ôl adran 16 o'r Ddeddf (dyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth) yn ogystal â chyd-fynd â Chod y Cynulliad ei hun. Mae hyn wedi bod yn llesol i'r Cynulliad. Bydd ein tîm Rhyddid Gwybodaeth fel rheol yn sefydlu perthynas dda gyda'r rhai sy'n ymholi, ac yn creu hyder ynddynt ein bod yn trin eu ceisiadau'n onest a hyd eithaf ein gallu. Anaml y bydd neb yn herio cywirdeb a llwyredd ein hymatebion a'r ffordd gytbwys rydym yn ymarfer eithriadau. Yn wir, un apêl yn unig sydd wedi bod i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn erbyn y ffaith inni ddefnyddio eithriad, a chafodd yr apêl honno ei gwrthod.

## 5.0 Y baich gweinyddol

5.1 Er y gellir ateb y mwyafrif o geisiadau'n gymharol hawdd, mae yna nifer bach sy'n achosi gwaith anghyfartal o fawr. Ymhlith enghreifftiau diweddar mae cais a ddaeth i law yn 2010 yn ymwneud â phrynu eitemau gan ddefnyddio cerdyn credyd y Comisiwn. Golygodd hwn oriau sylweddol o waith (tua 60 awr) i'r maes Cyllid. Roedd cais arall yn ymwneud â phenderfyniad y Comisiwn, yn 2009, i newid y trefniadau ar gyfer cyfieithu cofnod y trafodion.

5.2 Er bod ein huned Rhyddid Gwybodaeth benodol yn casglu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i ymateb i geisiadau, mae'r baich o gyrchu gwybodaeth yn disgyn ar ysgwyddau'r staff yn gyffredinol, a hynny'n ychwanegol at eu dyletswyddau parhaus. Mewn rhai achosion gall hyn, felly, darfu ar waith parhaus y Cynulliad a'r Comisiwn. Felly, mae'n deg archwilio ffyrdd i leihau'r baich gan ddal i barchu ein dyletswydd statudol a'n hymrwymiad clir i fod yn agored ac i ymgysylltu â phobl Cymru.

**6.0 Mwy o ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi wrth ymateb i geisiadau**

6.1 Un ffordd i leihau'r baich ar y Cynulliad ac, mewn rhai achosion, i wella'n hamserau ymateb, fyddai adolygu ac ehangu faint o wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi'n rhagweithiol. Byddai cynyddu'r wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi'n rhagweithiol yn dangos ymhellach ein hymrwymiad i fod yn agored a thryloyw.

6.2 Wrth ddewis y wybodaeth bellach i gael ei chyhoeddi, byddem yn manteisio ar ein profiad o'r math o wybodaeth a fyddai fel arall yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Er enghraifft, mae rhai ceisiadau wedi golygu crynhoi a dadansoddi bandiau cyflog staff, nad ydym yn eu cyhoeddi'n rheolaidd. Yn yr un modd, nid yw gwybodaeth fanwl am wariant y Comisiwn yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd ond mae'n achosi nifer cyson o geisiadau.

6.3 Gallwn hefyd ddysgu o ddulliau y mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn eu defnyddio. Mae'r rheini, i ryw raddau, eisoes yn cyhoeddi'n rheolaidd ddosbarthiadau o wybodaeth nad ydym ni'n eu cyhoeddi, fel bandiau cyflog staff. Mae cyflogau a thaliadau cyfrifoldeb arbennig a gaiff yr Aelodau eisoes ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ond gellid eu cyflwyno mewn ffordd fwy hwylus. Bydd nifer o geisiadau'n gofyn am ddadansoddiad o benawdau penodol o wariant y Comisiwn, a gallai'r manylion a rown wrth gyhoeddi ein cyfrifon blynyddol leihau'r math hwn o gais.

6.4 Mae cyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol yn ein galluogi i gyfeirio ymholwyr at y wybodaeth honno yn hytrach na bod arnynt angen ymateb penodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi atal gwybodaeth os bwriedir ei chyhoeddi, er enghraifft, bob chwarter neu bob blwyddyn. Yn ogystal â lleihau'r baich o ymateb i geisiadau unigol, mae cyhoeddi'n rhagweithiol hefyd yn golygu adroddiadau mwy cytbwys gan y cyfryngau. Mae cyhoeddi gwybodaeth o bwys bob yn eitem yn

galluogi'r cyfryngau i "ddewis a dethol" darnau penodol o wybodaeth nad ydynt yn gynrychioliadol. Ar y llaw arall, fel y dangoswyd yn achos lwfansau'r Aelodau, mae cyhoeddi'n rheolaidd bob mis yn golygu bod diddordeb y cyfryngau wedi lleihau'n sylweddol, ac maent yn gallu canolbwyntio'n unig ar eitemau sy'n wirioneddol arwyddocaol.

## 7.0 Eithriadau'n ymwneud â chost darparu gwybodaeth

7.1 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn cynnwys rheolau arbennig mewn perthynas â cheisiadau lle mae *amcangyfrif* o gost cydymffurfio â'r cais yn fwy na'r terfyn priodol. Ar hyn o bryd mae hwnnw'n £600, wedi'i gyfrifo yn ôl £25 yr awr am bob person (beth bynnag yw ei gyfradd tâl mewn gwirionedd). Felly, mae'n cyfateb i gyfanswm o 24 awr o waith.

7.2 Os bydd yr amcangyfrif o gyfanswm yr oriau o waith sydd eu hangen i gydymffurfio â chais yn fwy na'r terfyn, yn ôl y Ddeddf nid yw'n ofynnol inni ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Mae enghreifftiau o geisiadau sy'n golygu llawer iawn o ymdrech wedi'u disgrifio ym mharagraff 5.1 uchod. Fodd bynnag, ni ddylid tybio y byddai'r rhain o reidrwydd wedi bod dros y terfyn priodol, oherwydd mae'r amser a ganiateir inni ei gyfrif wrth wneud y cyfrifo yn gyfyngedig i gasglu'r wybodaeth. Nid yw'n cynnwys ystyried defnyddio eithriadau, golygu gwybodaeth bersonol ac ati, sef y rhan o'r ymateb sy'n aml iawn yn cymryd mwyaf o amser. Rydym wedi adolygu pob un o'r 71 o geisiadau a gawsom yn 2011ac aseswn na fyddai'r un ohonynt wedi bod dros y terfyn eithriad.

7.3 Er bod nifer y ceisiadau lle byddai'r terfyn hwn yn gymwys yn debygol o fod yn fach, felly, byddai'r gwaith o ymateb iddynt yn sylweddol, ac felly byddai dibynnu ar yr eithriad hwn yn debygol o arwain at leihad sylweddol yn y llwyth gwaith o ymateb i geisiadau.

7.3 Nid gwrthod ymateb yw'r unig ddewis. Lle mae'r amcangyfrif o gost ymateb yn fwy na'r terfyn priodol, yn hytrach na gwrthod cydymffurfio mae'r Ddeddf yn caniatáu i gorff ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud cais dalu ffi ymlaen llaw am ddatgeliad sy'n cyfateb i'r amcangyfrif o'r gost. Mae Cod Ymarfer y Cynulliad yn caniatáu codi tâl am wybodaeth mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, ac mae hyn yn osgoi unrhyw awgrym bod gallu cael gwybodaeth yn dibynnu ar y modd sydd gan y sawl sy'n ymholi, gan gadw'r pŵer wrth law i godi tâl lle bydd y system yn cael ei chamddefnyddio at ddibenion masnachol.

7.4 Mae yna anawsterau wrth ddefnyddio'r darpariaethau hyn. Wrth inni gyfrifo'n hamcangyfrif o'r gost, byddai'n rhaid i'r rheini allu gwrthsefyll craffu gan y Comisiynydd Gwybodaeth, neu hyd yn oed gan y llysoedd. Wrth ddefnyddio'r darpariaethau hyn, mae peryglon hefyd i enw da'r Cynulliad o fod yn agored, yn enwedig o gofio nad ydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

7.5 Nid yw'r darpariaethau dan sylw ychwaith yn hollol ddiogel. Er enghraifft, gall rhywun sy'n gwneud cais lwyddo i'w isrannu'n geisiadau ar wahân, bob un ohonynt o fewn y terfyn priodol. Er y gall ceisiadau ar wahân gael eu "cyfuno" wrth amcangyfrif y gost o ymateb, gellir gwneud hynny dim ond lle byddant yn gofyn am "yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg", ac ni fydd hynny'n cynnwys pob achos o isrannu.

7.6 O ystyried popeth, rydym yn argymell na ddylem newid yr arfer cyfredol yn sylweddol, ac na ddylem bennu taliadau (heblaw mewn amgylchiadau eithriadol) am ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, dylem fod yn barod, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, i ymarfer ein rhyddid i wrthod ateb yn llwyr. Byddai hyn yn gyson â Chod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Er enghraifft, byddai gwrthod caniatáu defnyddio adnoddau sylweddol i ymateb i gais lle nad oes diddordeb gwirioneddol gan y cyhoedd yn y wybodaeth, a lle byddai'r canlyniad yn golygu tarfu ar waith parhaus y Cynulliad, yn bodloni'r gofyniad "amgylchiadau eithriadol" yn y Cod.

## 8.0 Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

8.1 Un o'r ffactorau wrth sicrhau ymateb yn gyflym i geisiadau am wybodaeth yw sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r gwaith hwn yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae ein profiad yn dangos nad yw hyn yn wir bob amser, ac felly awgrymwn gynnal rhaglen i wella ymwybyddiaeth ymhlith y staff. Gallai hyn hefyd gwmpasu Aelodau a'u staff, oherwydd un ffynhonnell lle mae oedi yw'r angen am ymgynghori ag Aelodau pan fydd ceisiadau'n ymwneud ag Aelodau unigol. Felly, byddai o gymorth pe bae mwy o ddealltwriaeth o ofyniad y Ddeddf er mwyn sicrhau bod eu mewnbwn yn canolbwyntio mor effeithlon â phosibl, a bod y ceisiadau hyn yn cael blaenoriaeth briodol. Rydym eisoes wedi dechrau cynnig cymorth felly i staff y Cynulliad a'r Aelodau (er enghraifft, gyda sesiynau mewn cyfarfodydd o grwpiau'r pleidiau a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan Anne Jones (Comisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol).

10.1 **Casgliadau**

10.1 Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i ystyried y materion sydd wedi'u trafod ac i gytuno y dylem wneud popeth a allwn i gyhoeddi mwy o wybodaeth yn rheolaidd, a hefyd i wneud mwy o ddefnydd o gyfeiriadau at wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi yn ein hymatebion i geisiadau.

10.2 Gwahoddir y Comisiwn hefyd i fynegi ei safbwyntiau ar y dewisiadau'n ymwneud â defnyddio'r darpariaethau terfyn priodol yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn golygu y dylem, mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, ymarfer ein hawl i beidio â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, lle mae'r gost o wneud hynny'n fwy na'r terfyn priodol *a* lle mae amgylchiadau (fel tarfu ar ddyletswyddau eraill y staff) sy'n cyfiawnhau gwneud hynny. Ar y llaw arall, dylem gynnal ein polisi o beidio â chodi tâl am wybodaeth (heblaw mewn achosion eithriadol iawn).

**Atodiad1 – Cyfrifoldebau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

**Rhwymedigaethau'r Cynulliad**

1. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel awdurdod cyhoeddus, rwymedigaeth gyfreithiol i ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000). Mae'r Ddeddf hon yn rhoi i'r cyhoedd hawl gyffredinol i gael gweld gwybodaeth wedi ei chofnodi sydd gan y Cynulliad. Mae gan y Cynulliad hefyd ddyletswydd ar wahân, fel rheolwr data, i ymateb i geisiadau am fynediad at wybodaeth am unigolyn a wneir dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

2. Caiff cydymffurfio â'r Deddfau ei reoleiddio gan y Comisiynydd Gwybodaeth, corff goruchwyliol annibynnol yn y Deyrnas Unedig sy'n adrodd yn ôl yn uniongyrchol i Senedd y DU. Anne Jones yw'r Comisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol i Gymru a hi yw pennaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru. Ei swyddogaeth yw cynghori, cynorthwyo, arolygu a gorfodi gofynion:

- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (a 2011)
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2005; a
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

3. Mae gennym berthynas weithio gref gydag Anne, ac mae hi wedi rhoi nifer o gyflwyniadau i'r staff ac i Aelodau'r Cynulliad i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth am rwymedigaethau'r Cynulliad dan y gwahanol ddeddfwriaeth, ac am swyddogaeth y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae ei swyddfa hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad i Aelodau'r Cynulliad fel unigolion.

4. Gall gofynion Deddf Diogelu Data 1998 gael effaith gref ar geisiadau'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth lle maent yn ymwneud â data personol trydydd parti.

5. Dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, disgwylir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Ddatgelu gwybodaeth yn rhagweithiol lle mae hynny'n briodol;

- Ystyried eithriadau perthnasol a phenderfyniadau terfynol ynglŷn â datgelu neu beidio;
- Ymgynghori â thrydydd parti pan fydd angen; a
- Chydymffurfio â materion ymarferol fel cyfyngiadau amser (fel rheol mae gennym 20 diwrnod i ymateb i gais)

**Rhwymedigaethau Aelodau'r Cynulliad**

6. Deddf Rhyddid Gwybodaeth: Nid yw Aelodau'r Cynulliad eu hunain yn awdurdodau cyhoeddus, ac ni all fod yn ofynnol iddynt ddatgelu gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, gallai'r Ddeddf ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad ddatgelu gwybodaeth sydd ganddo am Aelodau'r Cynulliad, ac mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei rhoi i Gomisiwn y Cynulliad gan Aelod Cynulliad.
7. Deddf Diogelu Data: Mae Aelodau'r Cynulliad yn 'Rheolwyr Data' dan y Ddeddf Diogelu Data, a gallant ddod ar draws data personol ar lawer ffurf: fel cyflogwyr, drwy waith etholaethol a busnes y Cynulliad. Mae eu rhwymedigaethau'n cynnwys:

- Cael cydsyniad i ddefnyddio data personol mewn cyd-destun gwahanol i'r modd y cafwyd hwy;
- Cadw gwybodaeth yn ddiogel;
- Delio â cheisiadau am fynediad at wybodaeth am unigolyn;
- Sicrhau bod etholwyr yn gwybod sut mae eu data'n cael eu defnyddio.

**Atodiad B – Gweithdrefnau ar gyfer delio â cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

1. Bydd y Cynulliad yn cael tua 50 o geisiadau bob blwyddyn dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a gall y rhain gynnwys bron unrhyw agwedd ar ei weithgareddau. Mae Tabl 1 yn dangos y nifer a gafwyd yn y pum mlynedd diwethaf. Mae'n dangos dau gynnydd 'sydyn': y naill pan ddatgelwyd treuliau Aelodau'r Cynulliad; a'r llall wrth nesáu at etholiad 2011.

Tabl 1

| Blwyddyn | Cyfanswm y ceisiadau | Nifer y ceisiadau sy'n ymwneud ag Aelodau |
|---|---|---|
| 2007 | 24 | 07 |
| 2008 | 45 | 25 |
| 2009 | 52 | 12 |
| 2010 | 52 | 15 |
| 2011 | 71 | 14 |

2. Roedd mwyafrif y ceisiadau'n ymwneud â:
   - Threuliau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad;
   - Staffio'r Cynulliad; a
   - Gwariant y Cynulliad

**Rheoli'r broses**

3. Mae Cod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gosod allan ymrwymiad y Cynulliad i fod yn agored a'r egwyddorion y bydd yn eu dilyn wrth ymateb i geisiadau, sef:
   - Bod mor agored ag y bo modd (ond yn amodol ar gyfyngiadau teg fel yr amrywiol eithriadau yn Neddf 2000);
   - Defnyddio iaith glir;
   - Cynnal cynllun cyhoeddi;
   - Cyhoeddi ar y rhyngrwyd;
   - Parchu preifatrwydd, cyfrinachedd a'r gyfraith;
   - Ymatebion prydlon a chynhwysfawr;
   - Yr hawl i gwyno; a
   - Rhoi gwybodaeth yn ddi-dâl (heblaw mewn amgylchiadau eithriadol).

4. Bydd yr amser a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i ymateb i bob cais yn amrywio'n sylweddol.  Mewn rhai achosion gallwn gyfeirio'r sawl sy'n gwneud cais at wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd; mewn achosion eraill rhaid inni drefnu ymarfer sylweddol i gasglu gwybodaeth. Yn ogystal â'r pethau hyn, mae'r broses hefyd yn golygu:

- Cysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyfreithiol ar arferion fel diogelu data ac eithriadau posibl;
- Golygu dogfennau (lle bydd angen) er mwyn dileu gwybodaeth sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolion, a materion eraill ynglŷn â diogelu data;
- Ymgynghori ag Aelodau a staff mewn cysylltiad â gwybodaeth amdanynt y gellid ei rhyddhau;
- Y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr yn clirio pob ymateb o flaen llaw; yna, cyhoeddi ar y Log datgelu ar wefan y Cynulliad.

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2012(2) Papur 6 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau 8 Mawrth 2012
**Amser:** 11.00 – 13.00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Carys Evans, est 8598

# Portffolios Comisiwn y Cynulliad

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn gwahodd Comisiynwyr y Cynulliad i roi diweddariad ar lafar am eu portffolios.

| **Portffolio** | **Comisiynydd** |
|---|---|
| Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, cyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Cyfreithiol. | Rosemary Butler AC |
| Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i Aelodau, cymorth cyflogaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff. | Angela Burns AC |
| TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad | Peter Black AC |
| Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, arlwyo a diogelwch. Swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â chydraddoldeb a rhyddid gwybodaeth. | Sandy Mewies AC |
| Ymgysylltu a chyfathrebu â'r dinesydd, allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol. Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. | Rhodri Glyn Thomas AC |

Er nad yw David Melding, y Dirprwy Lywydd, yn aelod ffurfiol o'r Comisiwn, cytunwyd y bydd yn cefnogi'r Comisiwn drwy ganolbwyntio ar y Pierhead fel canolfan ar gyfer datblygu a thrafod yn y Cynulliad, ac ar gysylltiadau â Chanolfan Llywodraethiant Cymru a sefydliadau eraill sy'n berthnasol i'r rôl hon.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**AC(4)2012(2) Papur 7 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau 8 Mawrth 2012
**Amser:** 11.00 – 13.00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Carys Evans, est 8598

## Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr agenda | Deiliad y Portffolio/swyddog arwain |
|---|---|---|
| **10 Mai 12** | Strategaeth ar gyfer cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Caffael | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Taliadau staff y Cynulliad (i'w gadarnhau) | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Y rhaglen dreigl | Yr ysgrifenyddiaeth |
| **28 Mehefin 12** | Cymeradwyo adroddiad blynyddol a chyfrifon 2011-12 | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Y Strategaeth TGCh | Peter Black/Brian Davidge |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan ddeiliaid y portffolios | Deiliaid y portffolios |
| | Y rhaglen dreigl | Yr ysgrifenyddiaeth |
| **12 Gorffennaf 12** | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| **27 Medi 12** | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |